

Ymchwilio gyda Deallusrwydd Artiffisial

Pan fyddwch yn cael taflen fanyleb ar gyfer asesiad, dyma'r hyn fydd yn cael ei ddweud am gynnal eich ymchwil os caniateir i chi ddefnyddio deallusrwydd artiffisial.

Ar gyfer yr asesiad hwn, gallwch chi ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol i'ch cefnogi i wneud ymchwil, gan gynnwys chwilio am lyfryddiaeth, defnyddio offer i grynhoi, cymharu deunyddiau a'u chwestiynau.

Cofiwch bob amser gadw copi o'ch drafftiau, eich nodiadau ac unrhyw adnoddau eraill cyn ac ar ôl defnyddio offer deallusrwydd artiffisial. Mae hyn rhag ofn y bydd angen eu gwirio i weld a ydych wedi defnyddio offer deallusrwydd artiffisial yn y ffordd gywir ar gyfer eich asesiad.

Yr hyn y gallwch ei wneud wrth ddefnyddio offer deallusrwydd artiffisial ar gyfer ymchwilio

Creu llyfryddiaeth

Mae'n gallu bod yn ddefnyddiol i ddefnyddio deallusrwydd artiffisial i'ch helpu i ganfod llyfrau ac erthyglau pan ydych yn ymchwilio pwnc ar gyfer eich asesiad. Un enghraifft y mae'n debyg eich bod eisoes yn ei ddefnyddio yw **Google Scholar**. Mae'r tabl isod yn rhoi syniadau i chi am sut y gallwch ddefnyddio offer deallusrwydd artiffisial ar gyfer ymchwilio.

Beth ydych chi'n chwilio amdano?	Beth allwch chi ei ddefnyddio	Pam maen nhw'n nhw'n ddefnyddiol
Erthyglau	SCISPACE Semantic Scholar Elicit	Mae'r offer hyn yn dda iawn ar gyfer canfod yr erthyglau gorau ar gyfer eich asesiad. Maen nhw'n dangos yr wybodaeth yn

		syth, gan gynnwys y crynodeb.
Llyfrau	Google Scholar Llyfrgell PCYDDS	Er bod deallusrwydd artifisial yn ddefnyddiol iawn ar gyfer erthyglau, mae'r ddwy ffynhonnell hyn yn well wrth chwilio am lyfrau

Crynhai Cynnwys

Wrth ddarllen pwnc, rydym yn ceisio adnabod yr hyn sy'n ddefnyddiol yn y llyfr neu'r erthygl ac edrych ar ffyrdd i grynhoi'r hyn sydd ganddynt i'w ddweud. Gall hyn gynnwys sgim-ddarllen, darllen crynodebau o erthyglau a darllen drwy fynegeion llyfrau.

Fodd bynnag, mae offer deallusrwydd artifisial sy'n gallu creu crynodebau i chi pan ydych yn gofyn cwestiynau penodol iddynt. Mae hyn yn golygu nad oes rhaid i chi dreulio amser yn sgim-ddarllen ac ati. Gallant hefyd ddod o hyd i gyfeiriadau a deunyddiau i helpu i roi arweiniad wrth i chi ymchwilio i'ch pwnc.

Mae'r tabl isod yn dangos rhai esiamplau o offer deallusrwydd artifisial a allai wneud hi'n haws i grynhoi cynnwys.

Enw'r offer deallusrwydd artifisial	Sut mae'n ddefnyddiol
SCISPACE	Mae'n crynhai crynodebau a thrwy Co-pilot gallwch ddefnyddio'r swyddogaeth sgwrsio i edrych ar rannau penodol yr erthygl, er enghraifft prif bwyntiau, methodoleg, neu gasgliadau.
Otio	Mae'n creu crynodebau erthyglau, penodau llyfrau, a thudalennau gwe yr ydych eisoes wedi eu canfod. Rhaid i chi eu huwchlwytho yn gyntaf, ond mae ganddo swyddogaeth sgwrsio i helpu i chi gael dealltwriaeth o'r erthygl ac ati.
ResearchAide	Mae'n debyg iawn i Otio, ond gall hwn helpu i greu strwythur i'ch asesiad hefyd.
Elicit	Bydd yn eich helpu i ganfod erthyglau ac yna ddarparu crynodeb sylfaenol. Bydd yn crynhai pdf sydd wedi'i lanlwytho hefyd.
Consensus	Mae hwn ychydig yn wahanol i'r lleill, gall greu llyfryddiaeth sylfaenol, ond yn bwysicach na hynny, gall roi syniad i chi o'r consensws yn yr erthyglau hyn am faterion neu gwestiynau penodol

Research with AI

Offer cyffredinol yw pob un o'r offer deallusrwydd artiffisial sydd wedi'u rhestru fan hyn. Mae offer eraill ar gael sy'n benodol i bynciau penodol, er enghraifft [StatPearls](#) gan [Hippocratic AI](#) sy'n arbenigo mewn meddyginiaeth ac iechyd.

Yr hyn na allwch ei wneud wrth ddefnyddio offer deallusrwydd artiffisial ar gyfer ymchwilio

Yn union fel na fyddwch yn llên-ladatra llyfr neu erthygl, felly ni allwch lên-ladrata wrth ddefnyddio offeryn deallusrwydd artiffisial trwy ofyn iddo ysgrifennu'r cyfan neu unrhyw ran o'r asesiad ar eich rhan.

Mae'r esiampyl yn y blwch isod yn dangos yr hyn **ni ddylech** ei wneud wrth fewnbynnu anogwr i offeryn deallusrwydd artiffisial.

Mae'r enghraifft yn ymwneud ag Athen yn y cyfnod clasurol: edrychwch yn ofalus ar y geiriad i weld sut mae'r anogwr fwy na lai yn gofyn am yr ateb i'r cwestiwn yn hytrach nag ymchwilio'r pwnc.

Teitl yr Asesiad: In your considered opinion, why was Athens the most powerful polity in the classical period

Ni ddylech fewnbynnu:

- Tell me why Athens was the most powerful polity in the classical period
- Write a paragraph on why Athens was powerful

Pam na ddylech ddefnyddio anogwyr fel hyn

- Os byddwch yn defnyddio'r anogwyr hyn, yna yn y bôn, bydd yr offeryn deallusrwydd artiffisial yn gwneud yr asesiad i chi ac ni chaniateir hyn.
- Os byddwch yn cyflwyno'r hyn yr oedd yr offeryn deallusrwydd wedi'i greu gan ddefnyddio'r anogwyr hyn, yna nid eich gwaith chi ydyw a byddwch yn cyflawni **camymddwyn academiaidd**, fel y byddech yn ei wneud petai i chi gopïo o lyfr neu fyfyrwr arall. Bydd hyn yn arwain at gosbau difrifol.
- Os nad ydych yn gwneud y darllen ar gyfer y pwnc eich hun, ni allwch fod yn sicr eich bod wedi'i ddeall yn llawn. Ni allwch ychwaith fod yn sicr bod yr hyn mae'r offeryn deallusrwydd artiffisial wedi'i gynhyrchu yn gywir.

Dyma un o'r rhesymau pan mae'n rhaid i chi gofio cadw'r holl ddrafftiau, y nodiadau a'r adnoddau a gafodd eu defnyddio cyn ac ar ôl i chi ddefnyddio offer deallusrwydd artiffisial wrth ymchwilio ac ysgrifennu eich asesiad.

Efallai y bydd angen i'ch tiwtor eu gwirio i wneud yn siŵr nad ydych wedi mynd ymhellach i'r hyn y caniateir i chi ei wneud.

Y DIWEDD